# Manifesto i Gathod: Cymru

Mae'r Manifesto i Gathod: Cymru yn rhan o waith eirioli Cats Protection "Codi llais dros Gathod", yn ymgyrchu dros newidiadau a fydd yn gwneud y byd yn well i gathod.




### Bridio cathod
diweddaru'r gyfraith i reoli bridio a gwerthu cathod er mwyn gostwng nifer y cathod bach nad oes ar neb eu heisiau

### Gosod microsglodion
ei gwneud yn orfodol gosod microsglodyn mewn cathod y mae rhywun yn berchen arnynt

### Gofal a lles
Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r manteision y daw cathod ac anifeiliaid anwes eraill i iechyd a lles personol

### Labelu cynhyrchion gwenwynig
labelu'n glir flodau, planhigion a chynhyrchion cartref sy'n wenwynig i gathod fel bod perchenogion cathod yn gwybod pa rai i'w hosgoi

### Addysg lles anifeiliaid
cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm Cymreig fel bod pob plentyn yn dysgu bod yn gyfrifol wrth ofalu am anifeiliaid

### Cathod a darparwyr tai
Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o anghenion pobl â chathod neu anifeiliaid anwes eraill mewn tai rhent a thai gofal i ganiatáu i bobl gadw eu hanifeiliaid anwes

### Rheoleiddio gynnau awyr
rheoleiddio'n llawer caethach bod yn berchen ar ynnau awyr a chroesfwâu i atal cathod a gaiff eu saethu gan y cyfryw arfau rhag cael eu hanafu neu eu hatal rhag marw

### Cŵn Peryglus
diwygiadau i ddeddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol fel bod modd erlyn perchenogion cŵn y mae eu cŵn yn ymosod ar gathod, eu hanafu neu'n eu lladd

### Gwahardd maglau
gwahardd yn llwyr ddefnyddio maglau am eu bod yn annynol ac yn greulon ac yn peri dioddefaint, anaf neu farwolaeth i anifeiliaid a gaiff eu dal ynddynt, gan gynnwys cathod

### Cathod sy'n cael eu mewnfudo'n anghyfreithlon
creu data-bas er mwyn sicrhau y cedwir cofnod canolog o'r holl gathod sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn gyfreithlon fel bod modd adnabod yn ddi-oed y rhai hynny a ddaw i mewn yn anghyfreithlon a heb gael eu brechu rhag y gynddaredd

Elusen arweiniol y Deyrnas Unedig er lles cathod yw Cats Protection. Rydym yn canolbwyntio ar reoli niferoedd cathod trwy ysbaddu a gostwng nifer y cathod crwydr ac nad oes ar neb eu heisiau, ailgartrefu cathod, addysgu am les cathod a rhoi gwybodaeth am y lles hwnnw. Yng Nghymru, bu i ni ailgartrefu dros 2,600 o gathod a chathod bach yn 2014. Cawn gefnogaeth dros 930 o wirfoddolwyr yng Nghymru sy'n rhoi eu hamser trwy achub ac ailgartrefu cathod crwydr, cynorthwyo cathod i gael eu hysbaddu, codi arian neu siarad gyda phlant ysgol a grwpiau cymunedol oedolion am ofal cathod. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan saith cangen dan ofal gwirfoddolwyr, dwy ganolfan fabwysiadu a 13 o siopau yng Nghymru. Ei gweledigaeth yw "byd lle dangosir i bob cath garedigrwydd a dealltwriaeth o'i hanghenion."

# Mae gan bobl feddwl o gathod

Mae cathod yn anifeiliaid anwes hynod boblogaidd sy'n rhoi cariad, yn dangos anwyldeb ac yn rhoi cwmnïaeth. Dengys ystadegau'r arolwg mwyaf diweddar fod gan 25 y cant o'r boblogaeth, ledled y Deyrnas Unedig, gath – dyna 11.1miliwn o gathod ar amcan.[1] Yng Nghymru, mae gan 29 o gartrefi o leiaf un gath, poblogaeth o 670,000[2] ar amcan. Dangosodd arolwg Cenedlaethol Cymreig, mai cathod yw'r ail anifail anwes mwyaf poblogaidd yng Nghymru, gyda 39 y cant o berchenogion anifeiliaid anwes yn dewis rhannu eu cartref gyda nhw.[3]

Mae gan Cats Protection bresenoldeb mawr ar y cyfryngau cymdeithasol yng Nghymru, gyda thros 20,000 achos o 'hoffi' tudalennau Facebook ein cangen a'n canolfan fabwysiadu yng Nghymru. Yn genedlaethol mae ein tudalen Facebook Cats Protection wedi cael dros 330,000 achos o 'hoffi' gyda miloedd o bobl yn hoffi, trafod ac yn rhannu ein negeseuon bob dydd.[4]

Fel mater gwleidyddol, mae lles anifeiliaid yn bwysig - mae'n cael effaith ar y ffordd y mae pobl yn pleidleisio. Gofynnodd pôl piniwn YouGov[5] i bleidleiswyr enwi materion fydd yn pennu sut y byddant yn pleidleisio. Yng Nghymru, nododd18 y cant o'r rhai y gofynnwyd iddynt, fod lles anifeiliaid yn un o'r materion hynny - mwy na'r ffigwr ledled y Deyrnas Unedig, sef 14 y cant. Felly, nid yn unig y mae mwy o bobl yn berchen ar gathod yng Nghymru nag sydd ar gyfartaledd yn genedlaethol ond mae materion ynghylch lles anifeiliaid yn bwysicach i bleidleiswyr Cymru hefyd. Mae etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016 yn gyfle i wleidyddion "Godi llais dros gathod".



## Maniffesto i Gathod

Mae nifer o gamau y gall Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol eu cymryd i sicrhau byd gwell i gathod. Mae'r cyhoedd yn cysylltu'n gyson â Cats Protection ynghylch materion sy'n eu pryderu, p'run a yw hynny ynghylch cŵn yn ymosod ar gathod ac yn eu niweidio, landlordiaid yn gwrthod tenantiaid â chathod neu gathod bach yn cael ei bridio heb reolaeth o gathod domestig a gwyllt.

> Yng Nghymru, nododd 18 y cant o'r rhai y gofynnwyd iddynt, fod lles anifeiliaid yn un o'r materion hynny
>
> - Pôl piniwn YouGov, 2014



Photo: Sue Dobbs

# **Bridio i werthu:** diweddaru'r gyfraith i reoli bridio a gwerthu cathod er mwyn gostwng nifer y cathod bach nad oes ar neb eu heisiau.



## Argymhellion

- Sicrhau cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, elusennau lles anifeiliaid a chyrff cyhoeddus i annog perchenogion cathod i ysbaddu eu cathod.
- Bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiectau cymunedol sy'n annog perchenogion i ysbaddu eu cathod a bod yn gyfrifol am eu hanifeiliaid anwes
- Sicrhau rheoliadau newydd dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i reoleiddio bridio cathod a chŵn
- Ystyried Côd Ymarfer newydd dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 sy'n diogelu bridio cathod
- Cydweithredu gydag elusennau lles anifeiliaid a chyrff proffesiynol i ddatblygu gwaith lle mae'n i'r rhai hynny sy'n bridio a gwerthu cathod gael eu hachredu a'u hyfforddi
- Sicrhau rheoliadau cyfredol ar werthu anifeiliaid anwes i ddisodli Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, gan gynnwys gwahardd gwerthu cathod bach mewn siopau anifeiliaid anwes
- Bod y Llywodraeth yn adolygu arferion gorau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a fframweithiau rheoleiddiol sy'n rheoli bridio cathod
- Sicrhau cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru ac elusennau lles anifeiliaid a chyrff proffesiynol i ddatblygu "rhestr wirio o gathod bach" i roi arweiniad i gwsmeriaid sy'n prynu cath fach

"Mae gan Gangen Casnewydd a'r Ardal o Cats Protection brofiad o berchenogion cathod yn gwrthod talebau ysbaddu oherwydd eu bod yn gallu gwneud arian o werthu'r cathod bach. Maent yn gweld cathod bach ar werth ar lein yn rheolaidd gan yr un gwerthwyr."[11]

- Mae gan Gangen Casnewydd a'r Ardal, Cats Protection

Yn Cats Protection gwyddom fod yna fwy o gathod a chathod bach nag sydd o gartrefi cariadus. Yn y ddwy flynedd hyd at ddiwedd 2014, gwelodd ein canolfannau mabwysiadu yng Nghymru gynnydd o 46 y cant yn nifer y cathod bach o "dorllwyth nad oedd ar neb ei eisiau" yn cael ei rhoi yn ein gofal. Eto, er gwaethaf y cynnydd brawychus yn nifer y cathod bach a roddir i'n canolfannau, rydym yn dal i weld llond gwlad o gathod a chathod bach yn cael eu hysbysebu ar gyfer eu gwerthu ar lein, gyda thystiolaeth anorchfygol o fridio masnachol lle mae'r un hysbysebwyr yn gosod hysbysebion un ar ôl y llall am gathod bach.

> Yn y ddwy flynedd hyd at ddiwedd 2014, gwelodd ein canolfannau mabwysiadu yng Nghymru gynnydd o 46 y cant yn nifer y cathod bach o "dorllwyth nad oedd ar neb ei eisiau" yn cael ei rhoi yn ein gofal.

Ers sawl blwyddyn mae gwirfoddolwyr a staff Cats Protection wedi bod yn hynod bryderus ynghylch cathod sy'n cael eu bridio mewn amgylchiadau lles gwael. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n bridio ac yn gwerthu cathod, yn aml o gartrefi, ac sy'n cael eu cymell fwy gan arian na chan les. Yn yr un modd, rydym yn bryderus pan nad yw perchennog yn ysbaddu ei gath ac, felly, yn caniatáu i'r gath fanw gael sawl torllwyth o gathod bach ac yna'n dibynnu ar deulu, ffrindiau neu gymdogion i'w cymryd. Yn amlach na pheidio, y cathod bach hyn na chafodd eu cynllunio yw'r rhai sy'n dod i fod yn gathod llawn dwf nad oes ar neb eu heisiau ac sy'n cael eu gadael.

Dengys ffigyrau diweddar fod 38 y cant o berchenogion wedi cael eu cath gan ffrind, perthynas neu gymydog, o gymharu â 21 y cant yn unig a fabwysiadodd o elusen anifeiliaid neu ganolfan achub. Dywed 16 y cant arall o berchenogion eu bod wedi cymryd cath grwydr i mewn oddi ar y stryd.[6] Awgryma'r ffigyrau hyn fod nifer fawr o gathod bach na chawsant eu cynllunio'n cael eu rhoi i ffwrdd neu eu gadael.

Ysbaddu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ostwng nifer y cathod bach nad oes ar neb eu heisiau a rheoli nifer y cathod crwydr a gwyllt. Yn 2014, ysbaddodd y saith cangen sydd dan ofal gwirfoddolwyr a'r ddwy ganolfan fabwysiadu yng Nghymru bron i 6,000 o gathod.[7] Er gwaethaf hyn, yng Nghymru mae un o'r graddau isaf ledled y Deyrnas Unedig o ysbaddu cathod y mae rhywun yn berchen arnynt, gyda bron i un rhan o bump o gathod heb eu hysbaddu. Mae hyn oddeutu 70,000 o gathod sy'n anifeiliaid anwes heb eu hysbaddu.[8] Mae cathod yn fridwyr epilgar, gydag un fanw heb ei hysbaddu'n gallu rhoi genedigaeth i oddeutu 18 cath fach y flwyddyn. Gall un fanw heb ei hysbaddu arwain at 20,000 o epil mewn pum mlynedd yn unig, felly hawdd gweld sut gall niferoedd cathod fynd allan o reolaeth mor sydyn.

Mae Cats Protection, ynghyd â'r PDSA, yr RSPCA a'r Dogs Trust wedi llwyddo i gynnal sesiynau "archwilio iechyd anifeiliaid anwes" mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnig cyngor a chymorth ariannol ar ffurf talebau ysbaddu i annog perchenogion cathod i ysbaddu eu hanifeiliaid anwes. Mae angen mwy o brosiectau fel hyn. Yn 2016 bydd Cats Protection yn lansio cynllun newydd ledled Cymru i annog mwy o berchenogion cathod i'w hysbaddu.

Yn groes i fridio cŵn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd ar ei gyfer yn ddiweddar i fynd i ymrafael â bridio anghyfrifol,[9] nid yw bridio cathod yn cael ei reoleiddio yng Nghymru a mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Wrth reoleiddio, byddai modd diogelu lles cathod trwy amodau ac archwilio trwyddedau.

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion ym mis Ebrill 2015 i gofrestru, o 2020 ymlaen, y rhai hynny sy'n bridio ac yn gwerthu anifeiliaid anwes.[10] Mae yna gyfreithiau'n bodoli sy'n rheoli bridio a gwerthu anifeiliaid anwes (Deddf Anifeiliaid Anwes 1951) ond mae angen diweddaru'r rhain yn ddirfawr. Mae yna ryw gymaint o hunanreoleiddio ac arfer bridio dda, yn enwedig felly ymhlith y rhai hynny sy'n bridio a chofrestru cathod pedigri gyda chyrff megis Cyngor Llywodraethu'r Cat Fancy.

Mae bridio cathod masnachol eisoes yn cael ei reoleiddio mewn rhai gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys Gwlad Belg a'r Iseldiroedd, mewn gwahanol daleithiau yn yr Unol Daleithiau ac yn New South Wales a Victoria.

# **Cyfyngiadau i reoli'r defnydd a wneir o ynnau awyr:** rheoleiddio'n llawer caethach berchenogaeth ar ynnau awyr a chroesfwâu i atal cathod a gaiff eu saethu gan y cyfryw arfau rhag cael eu hanafu neu eu hatal rhag marw.

Ar gyfartaledd, adroddir bod dros bedair cath yr wythnos wedi'i saethu gyda gŵn awyr yn y Deyrnas Unedig.[12] Yn ystod chwe mis cyntaf 2015, bu cynnydd pryderus o 71 y cant o ymosodiadau gyda gynnau awyr ar gathod yng Nghymru o gymharu â niferoedd a gofnodwyd yn ystod chwe mis olaf 2014.[13]

Yn nodweddiadol, mae peledi'n mynd yn sownd yng nghorff cathod, yn eu hymennydd, eu llygaid, eu hasgwrn cefn neu yn eu horganau hanfodol gan, yn aml iawn, achosi anafiadau angheuol. Yn aml iawn gwnaiff cath adael y man lle cafodd ei hanafu ac, fel sy'n gyffredin ymhlith cathod, fynd i ffwrdd i guddio neu i farw mewn llecyn unig. Nid yw llawer o anafiadau gyda gynnau awyr yn amlwg i berchenogion cathod yn syth ac mae'r oedi cyn y ceir hyd i beledi gwn awyr yn ei gwneud yn anos sefydlu lle a pha bryd y bu'r saethu.

Lle caiff gynnau awyr eu defnyddio ar hap, yn achlysurol neu'n fwriadol i beri anafiadau i gathod ac anifeiliaid eraill, rydym yn ymwybodol nad oes modd i berchenogion, yn aml iawn, fynd ymlaen i erlyn dan y gyfraith gyfredol am resymau sy'n ymwneud â thystiolaeth. Byddai cynllun trwyddedu llymach yn cyfyngu trwyddedau gwn awyr i'r rhai hynny sydd â rheswm cyfiawn dros eu cael.

Nid oes angen trwydded arnoch i fod yn berchen ar wn awyr grym isel yng Nghymru a Lloegr. Mae Rheolau Gynnau (Arfau Awyr Peryglus) 1969 yn datgan mai ar gyfer arfau a ystyrir yn "benodol beryglus" - sydd ag egni cinetig o chwe troedfedd-pwys (rhyw fymryn dros wyth joule) - yn unig y mae angen trwydded. Yn yr Alban, mae disgwyl i'r Ddeddf Arfau Awyr a Thrwyddedu (yr Alban) ddod i rym yn 2016 a bydd gofyn trwyddedu pob gwn awyr sydd ag egni cinetig o un joule neu fwy. Golyga'r cyfyngiad llawer is ar egni y bydd angen i berchenogion arfau awyr grym isel fod â thrwydded, yn ogystal â bod gofyn iddynt ddangos bod ganddynt reswm da dros fod yn berchen ar arf.

### Argymhellion

- Cael rheolaeth gryfach ar ynnau awyr yng Nghymru er mwyn sicrhau mai'r unig rai a all gael gwn awyr dan drwydded yw'r rhai a all ddangos bod ganddynt reswm da dros fod yn berchen arno
- Trothwy trwyddedu o egni cinetig o un joule yn unol â gofynion Deddf Gynnau Awyr a Thrwyddedu (yr Alban)


### Hanes Garfield[14]

Ychydig dros ei flwydd oed oedd Garfield pan ddaeth gartref gyda briw dwfn yn agos at ei lygad. Roedd y perchennog, Claire Denyer, sy'n byw ger Cei Newydd, wedi dychryn pan ddangosodd ddelwedd pelydr-x beled o wn awyr wedi gwreiddio'n ddwfn yn ei gnawd. Cynghorodd y milfeddygon adael y beled yn ei lle gan y byddai ei symud yn golygu y byddai Garfield yn colli ei lygad ond y byddai angen cadw llygad barcud arno i wneud yn siŵr na fyddai'r beled yn symud. Yn ôl milfeddygon, pe byddai'r beled wedi glanio ychydig filimetrau naill ochr neu'r llall, byddai Garfield wedi'i ddallu neu hyd yn oed ei ladd.



### Hanes Mr Snow a Dave[15]

Gwnaeth Helen Davies, o Bentrecwrt, y penderfyniad torcalonnus o fynd â'i chathod, Dave a Mr Snow, oedd yn annwyl iawn gan lawer, i gartref arall wedi i'r ddau gael eu hanafu mewn ymosodiadau gan ynnau awyr. Dave oedd y cyntaf i fod angen llawdriniaeth frys arno wedi iddo ddod adref gydag anaf i'w wyneb a achoswyd gan beled gwn awyr. Ychydig o fisoedd yn unig yn ddiweddarach, cafodd Mr Snow anaf ofnadwy i gefn ei wddf ac roedd angen llawdriniaeth arno i dynnu peled fawr. Meddai Helen: "Roedd yr Heddlu'n cydymdeimlo'n fawr â ni ond nid oedd llawer yr oeddynt yn gallu'i wneud, cafodd ei gofnodi fel difrod troseddol yn unig. Wedi'r ail ymosodiad, roeddwn yn poeni cymaint y caent eu saethu eto a'u lladd, gwnaethom y penderfyniad anodd iawn i'w hanfon i fyw gyda fy merch. Rwyf yn gweld eu colli yma cymaint, ond ni allaf ganiatáu iddo ddigwydd eto."



## **Cathod yn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig:** creu data-bas i sicrhau y cedwir cofnod canolog o'r holl gathod sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn gyfreithlon fel bod modd adnabod yn ddi-oed y rhai hynny sy'n dod i mewn yn anghyfreithlon heb gael eu brechu rhag y gynddaredd.

Cofnodwyd fod cyfanswm o 43,829 o gathod a chathod bach wedi dod i mewn i'r Deyrnas Unedig dan y Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes yr Undeb Ewropeaidd (PETS) yn y tair blynedd hyd at 2014.[16] Mae PETS yn rheoli symudiad anfasnachol anifeiliaid anwes. Mae Cats Protection yn bryderus pan fo cathod neu gathod bach yn dod i mewn i'r wlad heb gael eu harchwilio a/neu'n anghyfreithlon gan fod hyn yn berygl posib i iechyd cyhoeddus yn ogystal ag yn fygythiad i les anifeiliaid. Gall un gath neu un gath fach a gaiff ei smyglo i mewn fod yn ddigon i roi Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig mewn perygl o achos o'r gynddaredd neu o glefydau heintus eraill.

Ym mis Tachwedd 2013 canfuwyd fod gan gath yn Paris y gynddaredd.[17] Ym mis Mai 2015, bu farw ci yr aed ag ef yn anghyfreithlon i Algeria o'r gynddaredd wedi iddo ddychwelyd i'r ardal Rhône-Alpes yn Ffrainc.[18] Ar hyn o bryd nid oes data-bas canolog sy'n cofnodi'r holl gathod anwes sy'n dod i mewn i'r wlad dan y cynllun PETS. Byddai'r cyfryw data-bas yn cadarnhau bod cath wedi'i harchwilio, ei sganio am ficrosglodyn a'i bod wedi dod i mewn i'r wlad yn gyfreithlon. Ar hyn o bryd, dim ond yr anifeiliaid sy'n cael eu datgan sy'n cael eu harchwilio cyn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig

Mae Cats Protection yn un o 40 aelod lles anifeiliaid o Eurogroup for Animals, a gydnabyddir gan senedd Ewrop fel y corff arweiniol sy'n cynrychioli materion lles anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig. Yn 2015, lansiodd y grŵp ymgyrch i uno data-basau microsglodion anifeiliaid yn Ewrop, symudiad fydd yn ei gwneud yn llawer haws pennu o le y mae anifail wedi dod.

### Argymhellion

- Creu data-bas cenedlaethol sy'n cofrestru manylion yr holl anifeiliaid anwes ac sydd wedi dod i mewn i'r wlad yn gyfreithlon. Dylai'r data-bas fod wedi'i gysylltu â data-bas yr Undeb Ewropeaidd a bod modd cael mynediad ato ledled yr Undeb Ewropeaidd er mwyn ei gwneud yn haws canfod tarddiad anifail.
- Bod yno arweiniad gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol, swyddogion safonau masnach, elusennau lles ac ati ar weithdrefnau i'w dilyn os caiff cath ei hamau o fod wedi'i mewnfudo'n anghyfreithlon (yn cynnwys arweiniad penodol ar ba bryd i'w rhoi mewn cwarantin)
- Archwilio ceir a cherbydau eraill ar hap i chwilio am gathod a chŵn sy'n cael eu smyglo i Gymru ac i weddill y Deyrnas Unedig



# **Cŵn yn ymosod ar gathod:** diwygiadau i ddeddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol fel bod modd erlyn perchenogion cŵn y mae eu cŵn yn ymosod ar gathod, eu hanafu neu'n eu lladd.

Yn chwe mis cyntaf 2015 adroddwyd yng ngwasg y Deyrnas Unedig fod cŵn yn ymosod ar bedair cath y mis. Yn anffodus, adroddwyd bod 70 y cant o'r ymosodiadau hynny ar gathod yn angheuol.[19]

Mae'r rhan helaethaf o berchenogion cŵn yn gyfrifol ac yn cadw eu cŵn dan reolaeth. Fodd bynnag, mewn achosion lle caiff cath neu anifail arall eu hanafu neu eu lladd pan fo perchennog yn methu cadw rheolaeth ar ei gi, mae angen cryfhau'r gyfraith.

Mae diwygiadau diweddar i gyfreithiau ynghylch cŵn peryglus, ac sydd bellach wedi'u cynnwys yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014, wedi ymestyn y gyfraith i gynnwys ymosodiadau gan gŵn ar gŵn cymorth,[20] ond nid ar anifeiliaid eraill megis cathod. Gall ymosodiad gan gi ar gath ddynodi ci peryglus. Yn rhy aml, adroddir ar achosion lle bu ymosodiad ar blentyn wedi i'r ci ymosod yn flaenorol ar gath. Nid yw cyfreithiau cyfredol ynghylch cŵn yn ymosod ar gathod yn ddigonol ac anodd yw erlyn yn llwyddiannus.

Mae atal rhywbeth rhag digwydd wastad yn well nac erlyn wedi iddo ddigwydd. Roedd Cats Protection yn falch o weld cyfeiriad penodol at atal cŵn rhag ymosod ar gathod yng nghanllawiau newydd y Llywodraeth ar y defnydd y mae heddlu a llywodraethau lleol yng Nghymru a Lloegr yn eu gwneud o fesuriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol.[21] Yr her nawr yw cadw llygad ar y defnydd effeithiol a wneir o'r canllawiau hyn.

## Argymhellion

- Cynnwys trosedd newydd yn y ddeddfwriaeth newydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol lle mae ci yn ymosod ar gath neu "anifail gwarchodedig" arall[22]
- Gwneud defnydd llawn o gamau ataliol yn y ddeddfwriaeth newydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn lleihau i'r eithaf ar yr achosion o gŵn yn ymosod ar gathod a hyrwyddo bod yn berchennog cyfrifol ar gi.
- Bod y Llywodraeth yn gydgysylltu data sy'n tystio fod cŵn yn ymosod ar gathod yng Nghymru a chadw llygad ar y defnydd a wneir o hyn gan weithredwyr camau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol

## Hanes Bella

Gadawyd Bella, oedd yn bedair oed, i farw pan ymosododd ci arni ger ei chartref yng Nghefn Mawr ym mis Awst 2015. Roedd ei hanafiadau mor frawychus, roedd ei pherchennog, Laura Woodcock, yn meddwl yn wreiddiol iddi gael ei tharo gan gar pan gafodd hyd i'w chorff llipa wrth ymyl ffordd. Cafodd Bella ei rhuthro i feddygfa filfeddygol frys lle cadarnhaodd tri milfeddyg gwahanol mai ci oedd yn gyfrifol am ei hanafiadau. Gadawyd Bella gyda llu o friwiau oedd wedi'u heintio lle'r oedd y ci wedi'i brathu a phen-glin oedd wedi datgymalu - cafodd lawdriniaeth, a dau fis o driniaeth filfeddygol i unioni'r pen-glin. Meddai Laura, "Roedd Bella'n hynod lwcus i oroesi. Rydym wedi methu cael hyd i'r ci a wnaeth hyn ac rwy'n crynu wrth feddwl beth arall y gallai ei wneud. Mae perchenogion cyfrifol yn cadw eu cŵn dan reolaeth, mae'n amlwg nad oedd pwy bynnag sy'n berchen ar hwn yn gwneud hynny."[23]



## **Addysg lles anifeiliaid:** cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm Cymreig fel bod pob plentyn yn dysgu am fod yn gyfrifol wrth ofalu am anifeiliaid.



Plant yw perchenogion anifeiliaid anwes y dyfodol ac mae'n hanfodol eu bod yn gadael yr ysgol gyda dealltwriaeth o sut i ofalu am anifeiliaid a'u parchu. Byddai datblygu dealltwriaeth mewn pobl ifanc o fod yn berchennog cyfrifol ar anifeiliaid anwes yn arwain at wella rhai o faterion lles anifeiliaid sy'n cael effaith ar Gymru, megis nifer gynyddol y cathod crwydr a'r cathod sy'n cael eu gadael, cyfraddau ysbaddu isel ac achosion o greulondeb.

Mae addysgu pobl ifanc am les cathod yn flaenoriaeth i Cats Protection. Ym mlwyddyn academaidd 2014-2015, rhoes ein gwirfoddolwyr addysgu dros 100 o sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol ledled Cymru, gan gyrraedd cynulleidfa o dros 3,100 o bobl. Ond mae llawer i'w wneud i gyrraedd mwy o bobl o bob oedran i wella eu gwybodaeth am fod yn berchennog cyfrifol. Er mwyn ein cynorthwyo i gyrraedd cynulleidfaoedd ymylol, byddai Cats Protection yn croesawu gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a chyrff proffesiynol i gael achrediad i'n hadnoddau addysgol.

Gydag adolygiad pwysig o'r Cwricwlwm Cymreig ar y gweill a'r cyfnod cynllunio a datblygu'n mynd rhagddo rhwng 2015 a 2018[24], nid oes amser gwell i sicrhau yr addysgir am les anifeiliaid mewn ysgolion. Yn ei adroddiad, Successful Futures, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, argymhellodd yr Athro Graham Donaldson y dylai cwricwlwm newydd gael ei seilio ar bedwar pwrpas allweddol, gan gynnwys cynorthwyo plant i fod yn ddinasyddion moesol a deallus o Gymru a'r byd.[25] Mae bod yn berchennog cyfrifol ar anifail anwes yn golygu gweithredu'n foesol ac yn ddeallus. Mae Cats Protection yn credu bod gwneud lles anifeiliaid a'r pum angen lles yn orfodol mewn unrhyw gwricwlwm newydd yn hanfodol i gyflawni hyn.[26] Mae angen cael hyd i gyfleoedd i gynnwys lles anifeiliaid yn chwe maes dysgu a phrofiad.

### Argymhellion

- Cynnwys lles anifeiliaid yn y cwricwlwm Cymreig a chydnabod effaith ataliol dysgu am les anifeiliaid bod yn berchennog cyfrifol ar anifeiliaid anwes i blant ysgol
- Bod Llywodraeth Cymru'n cydweithredu â chyrff proffesiynol er mwyn cefnogi adnoddau addysg yn y sector gwirfoddol
- Bod Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi gweithgareddau addysg Cats Protection yn lleol

## **Cathod a darparwyr tai:** cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o anghenion pobl a chathod neu anifeiliaid anwes eraill mewn tai rhent a thai gofal i gael cadw anifeiliaid anwes.

Mae'r nifer ohonom nad ydym yn berchen ar ein cartrefi ein hunain yn cynyddu.  Bellach mae gan nifer ohonom landlordiaid neu reolwyr, p'run ai mewn llety rhent neu gartref cymdeithasol neu ofal. Un o'r pum rheswm mwyaf cyffredin pam mae cathod yn cael eu rhoi i Cats Protection i gael eu hailgartrefu yng Nghymru yw bod landlordiaid neu gartrefi gofal yn gwrthod derbyn cathod. Ac mae'r broblem yn gwaethygu. Yn 2014 gwelodd Cats Protection gynnydd o naw y cant yn nifer y cathod a gafodd eu cyflwyno i gael eu hailgartrefu yn ein dwy ganolfan fabwysiadu yng Nghymru oherwydd nad oedd darparwyr tai'n derbyn anifeiliaid anwes.

Mae angen gwneud mwy i annog darparwyr tai a landlordiaid i gael polisïau a chymalau tenantiaeth sy'n ystyrlon o anifeiliaid anwes. Yn ôl un o'r canllawiau ar lein pwysicaf ar gyfer cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl, ar hyn o bryd, 38 y cant yn unig sy'n dweud eu bod yn cymryd "anifeiliaid anwes trwy drefniant".[27]

### Argymhellion

- Bod Llywodraeth Cymru'n annog mwy o gymdeithasau tai cymdeithasol a landlordiaid preifat i ganiatáu i denantiaid gadw anifeiliaid anwes
- Bod Llywodraeth Cymru'n annog ac yn hyrwyddo arfer dda lle mae gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai lleol a landlordiaid preifat gymalau tenantiaeth sy'n ystyriol o anifeiliaid anwes
- Bod Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos ag elusennau lles anifeiliaid i annog mwy o gartrefi gofal ac adeiladau ymddeol i ganiatáu i breswylwyr newydd fod â chathod

# **Gosod microsglodion:** ei gwneud yn orfodol gosod microsglodyn mewn cathod y mae rhywun yn berchen arnynt.

Gosod microsglodion yw'r dull diogel a pharhaol o adnabod, ac y mae Cats Protection yn ei argymell ar gyfer cathod. Mae cathod yn crwydro ac mae microsglodyn yn cynyddu'r gobeithion i gath sydd ar goll neu sydd wedi'i hanafu gael ei dychwelyd i'w pherchennog yn ddiogel. Mae Côd Ymarfer Cymru er Lles Cathod yn cadarnhau mai gosod microsglodion yw "y dull adnabod a ffafrir".[28] Pan fo awdurdodau'n sganio cathod sydd, yn anffodus, wedi'u lladd mewn damwain ffordd, yna gall sglodyn olygu bod perchennog o leiaf yn gwybod beth oedd ffawd ei anifail anwes.

Ond, er gwaethaf y manteision, 41 y cant yn unig o gathod yng Nghymru y mae rhywun yn berchen arnynt sydd wedi'u gosod â microsglodyn. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ledled y Deyrnas Unedig o 55 y cant ac yn golygu nad oes microsglodyn wedi'i osod mewn oddeutu 289,000 o gathod yng Nghymru y mae rhywun yn berchen arnynt.[29]

Mae Cats Protection yn hyrwyddo gosod microsglodyn mewn cathod ac mae'n gosod microsglodion ynddynt yn rheolaidd pan ddônt i'n gofal os nad oes un eisoes wedi'i osod. Yn 2014 yng Nghymru, bu i ni osod microsglodyn mewn dros 1,000 o gathod - oddeutu 40 y cant o'r cathod y bu i ni eu hailgartrefu.[30] Pan fyddwn yn cymryd cath sydd ar goll neu gath grwydr nad oes ynddi ficrosglodyn, gall fod yn anodd iawn olrhain y perchennog ac, yn anffodus, gallai olygu fod cath sydd â chartref yn cael e hailgartrefu heb fod rhaid.

Mae hi eisoes yn orfodol gosod microsglodyn mewn cathod mewn rhai gwledydd, er enghraifft, yn Sbaen a Gwlad Belg a rhannau o Awstralia. Mae gosod microsglodyn mewn cŵn eisoes yn orfodol yng Ngogledd Iwerddon ac mae disgwyl iddo gael ei wneud yn orfodol yng Nghymru,[31] yr Alban[32] ac yn Lloegr[33] yn 2016.

### Argymhellion

- Bod rheoliadau i gyflwyno camau i'w gwneud yn orfodol gosod microsglodyn mewn cathod y mae rhywun yn berchen arnynt
- Bod ddolygiad dan arweiniad Llywodraeth Cymru o arferion yn yr Undeb Ewropeaidd ac mewn gwledydd nad ydynt yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd a hynny mewn gwledydd lle mae gosod microsglodyn mewn cathod eisoes yn orfodol
- Cydweithredu gyda Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cymru i hyrwyddo manteision gosod microsglodyn mewn cathod (gan gynnwys cefnogaeth i gynlluniau megis Mis Cenedlaethol Gosod Microsglodyn bob mis Mehefin)

### Hanes Garfield "Aduniad"[34]

Roedd Garfield ar goll saith mlynedd cyn iddo ddod yn ôl yn derfynol at ei berchennog, diolch i'w ficrosglodyn. Cymerwyd mai cath grwydr oedd y pwsyn coch pan gyflwynwyd ef i'n Canolfan Fabwysiadu yn Mhen-y-bont ar Ogwr gan rywun pryderus oedd â meddwl mawr o gathod. Ar ôl rhoi sgan sydyn iddo canfuwyd bod ganddo ficrosglodyn ac roedd y staff yn gallu ei ddychwelyd i'w berchennog, Julie Calder o Rymni, Caerdydd. Meddai Julie : "Rwyf wedi gwirioni cael Garfield yn ôl gartref ar ôl saith mlynedd. Wnes i erioed beidio â meddwl amdano a thybio lle 'roedd e."



Photo: Sue Dobbs

## **Labelu cynhyrchion sy'n wenwynig i gathod:** labelu'n glir flodau, planhigion a chynhyrchion cartref sy'n wenwynig i gathod fel bod perchenogion cathod yn gwybod pa rai i'w hosgoi.

Mae cathod yn dueddol iawn o gael eu gwenwyno a gall nifer o gynhyrchion yn y cartref fod yn angheuol iddynt. Nid yw llawer o ddefnyddwyr, sydd hefyd yn berchen ar gathod, yn ymwybodol o ba mor wenwynig yw cynhyrchion megis diheintyddion a chwynladdwyr.

Mae'r gwaith o labelu cynhyrchion gwenwynig yn cael ei reoli gan Ddosbarthiad Ewropeaidd rheoliad Labelu a Phecynnu ers 1 Mehefin 2015. Mae'r rheoliad hwn wedi'i anelu at warchod pobl a'r amgylchedd. Ein dymuniad yw mynd y tu draw i'r hyn sy'n gyfreithiol ofynnol a sicrhau fod labelu cynhyrchion yn rhybuddio defnyddwyr o ba mor wenwynig yw cynnyrch i anifeiliaid.

Gall nifer o blanhigion - y lili'n benodol - fod yn angheuol hefyd. Er gwaethaf blynyddoedd o ymdrech ar ran Cats Protection a'r Cat Group[35] mae archfarchnadoedd yn parhau heb fod wedi geirio eu tuswau o lilis yn gywir na rhoi rhybuddion arnynt. Mae bob rhan o'r lili, nid y paill yn unig, yn wenwynig i gathod.

### Argymhellion

- Bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda gweithgynhyrchwyr gwrthrewyddion i'w hannog i roi rhybuddion yn wirfoddol ar gynhyrchion a phlanhigion gan dynnu sylw at ba mor wenwynig ydynt i anifeiliaid yn ogystal ag i bobl.
- Bod Llywodraeth Cymru'n annog gweithgynhyrchwyr cynhyrchion gwenwynig (megis gwrthrewyddion) i ddatblygu dewisiadau eraill nad ydynt yn wenwynig
- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ba mor wenwynig yw cynhyrchion cartref a phlanhigion tŷ penodol

### Hanes Baby[36]

Nid oedd Baby, oedd yn bedair oed, yn teimlo'n dda yn fuan wedi iddi fod yn cnoi ar dusw oedd yn cynnwys lilis. Rhuthrodd ei pherchennog, Samantha Bennet o Borthcawl, De Cymru hi'n syth at y milfeddyg wedi iddi edrych ar y we i weld a allai'r blodau fod wedi ei gwneud yn sâl. Arhosodd Baby yn y filfeddygfa am ddwy noson tra rhoddwyd hylif yn ei chorff i wneud i ffwrdd â'r gwenwyn a allai fod wedi peri i'w harennau fethu a hithau farw. Dywedodd Samantha, "Nid oed rhybudd ar y label fod y lili'n beryglus i gathod a phe bai un yno, ni fyddwn wedi gadael Baby'n agos ati."



Photo: Sue Dobbs

## **Maglau:** Dylid gwahardd maglau oherwydd eu bod yn annynol a chreulon.

Mae Cats Protection yn cefnogi gwahardd defnyddio'r holl fathau o faglau ledled y Deyrnas Unedig oherwydd bod eu defnyddio, o'i hanfod, yn greulon ac yn annynol. Mae maglu'n peri dioddefaint ac anafiadau sylweddol i anifeiliaid. Yn aml, cathod sy'n dioddef. Caiff maglau eu defnyddio'n gyffredin gan giperiaid a thirfeddianwyr eraill i warchod adar hela rhag cael eu rheibio. Llwynogod, gan amlaf, a chwningod, i raddau llai, yw'r "rhywogaeth a dargedir".

Nid yw maglau'n gwahaniaethu - canfu adroddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faglu yng Nghymru a Lloegr fod bron i 30 y cant o bobl oedd yn defnyddio maglau i ddal cwningod wedi dal cath ddomestig yn y fagl ar ryw adeg.[37] Dangosodd ystadegau a gasglwyd yn 2015 fod 71 y cant o achosion yr adroddwyd arnynt lle'r oedd anifeiliaid wedi'u dal mewn magl yn ymwneud ag anifail nad oedd yn cael ei dargedu. O'r rhain, cathod oedd bron i chwarter ohonynt (24 y cant).[38] Mae ffyrdd eraill ar gael i reolwyr tir reoli nifer y cwningod a llwynogod, er enghraifft, defnyddio gwahanol fathau o ffensys (trydan, claddedig a thanddaear).

Mae Cats Protection yn croesawu côd ymarfer gorau 2015 Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio maglau wrth reoli llwynogod.[39] Fodd bynnag, credwn mai wrth wahardd maglau'n llwyr yn unig y byddir yn atal cathod ac anifeiliaid eraill rhag cael poen a dioddefaint wrth gael eu dal mewn maglau.

> "Canfuwyd cath goch yn farw mewn magl ym Mhowys, gan ysgogi apêl am wybodaeth gan yr RSPCA. Canfuwyd gwrcath ifanc ym Mynwent Aberhonddu gan gerddwyr yn mynd â'u cŵn am dro a dywedodd yr elusen bod arwyddion amlwg y bu brwydro"
>
> - Adroddiad y BBC, mis Hydref 2015[40]

### Argymhellion

- Cyflwyno yng Nghymru waharddiad llwyr ar ddefnyddio maglau oherwydd eu bod yn annynol a chreulon ac yn peri dioddefaint, anaf neu farwolaeth i gathod ac anifeiliaid eraill sy'n cael eu dal ynddynt

## **Cathod a'u manteision i iechyd a lles:** Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r manteision a ddaw cathod ac anifeiliaid anwes eraill i iechyd a lles personol.

Gall cathod gynorthwyo i liniaru unigrwydd cymdeithasol a bod yn anifeiliaid anwes hynod addas i bobl â phroblemau iechyd cronig, i'r rhai y mae eu gallu i symud yn gyfyngedig neu i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ. Profwyd fod cathod yn cynorthwyo i ostwng peryglon cyflyrau corfforol megis clefyd cardiofasgwlaidd.[41]

Rhydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bwyslais mawr ar gefnogi lles unigol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol.[42] Mae hefyd yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i roi neu i drefnu gwasanaethau a all atal neu ohirio datblygiad angen sydd gan berson am ofal a chefnogaeth.[43]

Mae Cats Protection yn credu ei bod yn hanfodol nad yw'r rôl y mae cathod ac anifeiliaid anwes eraill yn ei chwarae yn mynd yn angof wrth i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gael ei defnyddio gan ymarferwyr. Byddem yn annog cynlluniau creadigol megis Rhaglenni Cefnogi Anifeiliaid Anwes sydd eisoes ar waith yn Awstralia.[44]

### Argymhellion

- Bod Llywodraeth Cymru'n egluro y gallai cathod ac anifeiliaid anwes eraill fod yn hanfodol i les unigolyn ac y dylai gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol llywodraethau lleol roi ystyriaeth i hyn wrth asesu anghenion gofal sydd gan berson dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Bod Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu'n ffurfiol gyda llywodraethau lleol a gweithwyr proffesiynol I'w hannog i ystyried gwerth anifeiliaid anwes i les mewn asesiadau gofal
- Bod Llywodraeth Cymru'n cadw llygad i sicrhau fod asesiadau a chynlluniau gofal personoledig yn cynnwys ystyried unrhyw anifeiliaid anwes sy'n rhan o aelwyd yr unigolyn ac sydd o fantais i les

### Hanes Ian[45] – "Mr Chips" yr anifail anwes ffyddlon

Wedi iddo ddarganfod bod arno gyflwr meddygol cymhleth, mae Ian yn parhau i ddioddef llawdriniaethau peryglus, sy'n cael effaith ar ei iechyd corfforol a meddyliol ac yn ei adael ar adegau'n teimlo bod arno eisiau lladd ei hun. Wedi bod trwy bopeth gydag o mae ei anifail anwes annwyl a ffyddlon, Mr Chips, sydd, yn ôl Ian, yn parhau i'w gadw i fynd trwy adegau o anobaith. Meddai Ian o Landudno, "Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai anodd iawn. Ar adegau rwyf yn teimlo bod arnaf eisiau lladd fy hun oherwydd fod pethau'n anodd ac rwyf yn ei chael yn anodd iawn cario ymlaen. Ond Mr Chips yw'r un sydd wedi fy ngadw i fynd ac sy'n rhoi rheswm i mi gario ymlaen."



## I gael rhagor o wybodaeth am y Maniffesto i Gathod: Cymru, ac am ein gwaith eirioli:

Ewch i:
**www.cats.org.uk/manifestowales**
Dilynwch: **@CPadvocacy** ar Twitter
I gysylltu â ni:
**advocacy@cats.org.uk**
Advocacy Manager,
National Cat Centre, Chelwood Gate,
Haywards Heath, RH17 7TT

Elusen gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr) a SC037711 (yr Alban). COM_961. 13/01/16

Deunyddiau cyfeirio:

1 Adroddiad Lles Anifeiliaid y PDSA (PAW) 2015 2 Gohebiaeth bersonol y PDSA – data ffynhonnell Adroddiad Lles Anifeiliaid y PDSA (PAW) 2015 3 https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2014-15 4 Ffigyrau wedi'u cymryd fis Hydref 2015 o dudalennau cenedlaethol a Chymreig Cats Protection ar Facebook 5 https://d25d2506sfb94s.cloudfront.net/cumulus_uploads/document/l50ymvzeao/YG-Archive-140201-WASP.pdf 6 https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2014-15 7 Ystadegau 2014 Cats Protection 8 Gohebiaeth bersonol y PDSA - data ffynhonnell Adroddiad Lles Anifeiliaid y PDSA (PAW) 2015 9 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 10 http://www.eurogroupforanimals.org/eurogroup-drags-pet-breeding-and-sale-out-of-the-shadows-as-uspca-shines-a-light-on-puppy-farms/ 11 Gohebiaeth bersonol 2015 12 Cofnod o adroddiadau'r wasg ac adroddiadau a wnaed yn uniongyrchol i Cats Protection trwy e-bost, llythyr, galwad ffôn neu gyfryngau cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2014 a 30 Mehefin 2015 13 Cofnod o adroddiadau'r wasg ac adroddiadau a wnaed yn uniongyrchol i Cats Protection trwy e-bost, llythyr, galwad ffôn neu gyfryngau cymdeithasol o fis Gorffennaf 2014 i fis Rhagfyr 2014 ac o fis Ionawr 2015 i fis Mehefin 2015 14 www.tivysideadvertiser.co.uk/news/13539758.Pet_owners_urged_to_be_vigilant_after_two_cats_shot_with_air_gun/?ref=mr&lp=16 a gohebiaeth bersonol 2015 15 www.tivysideadvertiser.co.uk/news/13539758.Pet_owners_urged_to_be_vigilant_after_two_cats_shot_with_air_gun/?ref=mr&lp=16 a gohebiaeth bersonol 2015 16 http://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2015-03-12/227485/ 17 http://www.bbc.co.uk/news/world-europe-24773304 18 https://www.gov.uk/government/news/rabies-in-france-may-2015 19 Cofnod o adroddiadau'r wasg ac adroddiadau a wnaed yn uniongyrchol i Cats Protection trwy e-bost, llythyr, galwad ffôn neu gyfryngau cymdeithasol o 1 Ionawr 2015 i 30 Mehefin 2015 20 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/12/contents/enacted/data.htm 21 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/373429/dog-ownership-practitioners-manual-201411.pdf 22 Fel y diffinnir yn Neddf Lles Anifeiliaid (2006) 23 Gohebiaeth bersonol 2015 24 http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en 25 http://gov.wales/docs/dcells/publications/150303-great-debate-summary-en.pdf?utm_source=greatdebate&utm_medium=summary&utm_campaign=dfes 26 Gwnaeth Adran 9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 hi'n ofynnol i bawb sy'n gyfrifol am anifail sicrhau y caiff ei anghenion lles eu diwallu. Dyma nhw: yr angen am amgylchedd addas, deiet addas, yr angen i fedru arddangos patrymau ymddygiad arferol, yr angen i gael llety gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt, yr angen i gael eu gwarchod rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd 27 www.carehome.co.uk 423 "anifail anwes trwy drefniant" o 1101 a gofrestrwyd (mis Awst 2015) 28 http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/pets/codesofpractice/081205codeofpracofcats/?lang=en 29 Gohebiaeth bersonol y PDSA - data ffynhonnell Adroddiad Lles Anifeiliaid y PDSA (PAW) 2015 30 Ystadegau Cats Protection 2014 31 http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/microchippingdogs/?lang=en http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/microchioppingofdogsinwales/?lang=en 32 http://news.scotland.gov.uk/News/Chip-in-16dd.aspx 33 https://www.gov.uk/government/publications/2010-to-2015-government-policy-animal-welfare/2010-to-2015-government-policy-animal-welfare 34 Swyddfa Cyfryngau Cats Protection a gohebiaeth bersonol 2015 35 www.thecatgroup.org.uk 36 Adroddiad milfeddyg i Cats Protection a gohebiaeth bersonol 2015 37 Defra (2012) Pennu pa mor gyffredin yw maglau, eu defnydd a pha mor annynol ydynt yng Nghymru a Lloegr 38 http://www.onekind.org/useful_links/media/CharityrenewscallstobansnaresaheadofGloriousTwelfth/ a gohebiaeth bersonol OneKind 39 http://www.nfu-cymru.org.uk/code-of-practice-on-snares1/ 40 http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-mid-wales-34553486 41 Quereshi A I, Memon M Z, Vazquez G et al. (2009) Cat ownership and the risk of fatal cardiovascular diseases, results from the second national health and nutritional examination study mortality follow-up study. Journal of vascular and interventional neurology, Cyfrol 2 Rhifyn 1 Ionawr 2009 tud132-13 42 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/2 43 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/15 44 http://www.yarracity.vic.gov.au/Services/Older-persons-services/home-and-support-services/Companion-Animal-Support-Program/ 45 Swyddfa Cyfryngau Cats Protection